Dyma Yw Fy Ngweddi

Dyro i mi wres tân mawn
A gwydred oer o Guinness
Dyro i mi faco cryf
A'r hawl i'w smocio'n hwylus
Dyro i mi gwmni da
A chysgod rhag y ddrycin
Dyro i mi boced ddofn
A thafarn lon yn Nulyn.

Dyro i mi ffrindiau triw
Ac amser yn eu cwmni
Dyro i mi harmoni
A rhywun i fy ngharu
Dyro i mi le i fyw
Yn rhywle lle gai groeso
Ffynnon bur a darn o dir
Rhywle alla'i fforddio.

Dyro i mi unrhyw beth
Ond be' sy' gen i heddi'
Os oes un rhyw un yn fy nghlywed i
Dyma yw fy ngweddi.

Dyro i mi dywydd da
A heulwen ar fy nghefen
Man bach tawel lle cai wylio'r
Machlud dros yr wybren
Dyro i mi fywyd hir
I gael bod yn ei chwmni
Lle diogel yn y byd
Cyn i mi gael fy sylwi.

© Geraint Griffiths 2005